

CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Ebrill 2, 2019 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL: Y Cyngorydd Delwyn Evans - Maer
Y Cyngorydd Jo Checkley – Dirprwy Faer
Cynghorwyr Bob Gunton; John Raghoobar, John Cadwaladr; Sion Edwards; Linda Morgan; Dyfrig Siencyn; Ywain Myfyr; Heilyn Williams; Branwen Rhys Dafydd.

Mr Rhys Williams – Clerc

C1.2019/2020 YMDDIHEURIADAU
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd Ray Stubbs a Nia Williams.

C2.2019/2020 DATGANIADAU O DDIDDORDEB PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD

Enw	Eitem	Rheswm
Delwyn Evans	C6.19/20.1	Gwesty Sior 3 ^{ydd} Lluniaeth / Cinio
Bob Gunton	C8.19/20	Cais Cynllunio Parc y Dref – Aelod o'r Pwyllgor
Branwen Rhys Dafydd		?
John Raghoobar	C8.19/20	Cais Cynllunio Parc y Dref – Aelod o'r Pwyllgor

C3.2019/2020 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR FAWRTH 5, 2019

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod.

C4.2019/2020 MATERION YN CODI O'R COFNODION

- 1. C .2018/2019 Ras 360**
Cyflwynwyd: Eglurhad nad oedd adborth ar gael yn deillio o gyfarfod yng Nghae Penarlâg yn ddiweddar.
Penderfynwyd: Dileu'r eitem o'r agenda i'r dyfodol.
- 2. C87.2018/2019.1 Coed Ffynnon Fair**
Cyflwynwyd: Cadarnhad bod 2 arwydd o rybudd bellach wedi ei sefydlu ar y safle.
Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth.
- 3. C87.2018/2019.2 Sefydlu Cyfyngiad Cyflymdra o 20 m.y.a.**
Cyflwynwyd: Eglurhad oddi wrth y Cyngorydd Dyfrig Siencyn bod dyddiad y cyfarfod i drafod hyn yng Nghyngor Gwynedd wedi cael ei ail drefnu. Adborth i ddilyn.
Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth.
- 4. C87.2018/2019.3 Ymweliad i Gyngor Tref Abermaw.**
Cyflwynwyd: Dydd Mawrth, Ebrill 23, 2019 am 6 o'r gloch yr hwyr yn Theatr y Ddraig fel amser a dyddiad posib ar gyfer hyn.
Penderfynwyd: Derbyn y gwahoddiad. Pawb i gadarnhau os ydynt yn bwriadu mynychu ac i gasglu / paratoi cwestiynau o flaen llaw i hwyluso'r sgwrs.
- 5. C .2018/2019 Wefan y Cyngor**
Cyflwynwyd: Ystadegau defnydd diweddar o'r safle. Nodwyd cynnydd yn y niferoedd.

Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth.

6. **C 2018/2019 Trychineb Llynpenmaen - Cofeb Barhaol - Manylion Enwau**

Cyflwynwyd: Adborth gan y Maer y bod ansicrwydd yn bodoli rhwng cofnodion y Crwner a'r gwasanaeth cofrestryddion ynglyn ac enw canol cywir 'Gwyneth Prebble'

Penderfynwyd: Peidio cynnwys yr enw canol ar unrhyw gofeb newydd. Cytunwyd i gychwyn hel syniadau ar gyfer dyluniad a'r math o gofeb newydd.

7. **C90.2018/2019.2 Ymweliad posib i Guerande.**

Cyflwynwyd: Trafodaeth ynglyn a derbyn y gwahoddiad i gynrychiolaeth o'r Cyngor fynychu'r Wyl Ganoloesol ar Fehefin 1-2, 2019.

Penderfynwyd: Danfon dau gynrychiolydd. Enwau i'w cytuno yng nghyfarfod mis Mai y Cyngor.

C5.2019/2020

SEFYLLFA ARIANNOL

Derbyniwyd y sefyllfa ariannol gan y Clerc a chadarnhawyd y taliadau canlynol

Dyddiad	Rhif Siec	Enw	Disgrifiad	Swm £
22.03.2019	103838	Sesiwn Fawr Dolgellau 2019	Cyfraniad	1,500.00
22.03.2019	103839	Clwb Criced Dolgellau	Cyfraniad	500.00
22.03.2019	103840	Wendy Owen	Cyfieithu – Mawrth 2019	93.07
26.03.2019	103841	Cymdeithas y Dydd	Cyfraniad	200.00
26.03.2019	103842	Y Cyng Jo Checkley	Costau Teithio / offer fflagiau	67.96
26.03.2019	103843	Eisteddfod Genedlaethol 2019	Cyfraniad	200.00
26.03.2019	103844	Eisteddfod yr Urdd 2019	Cyfraniad	100.00
26.03.2019	103845	JP & Sons Ltd	Nwyddau goleuadau nadolig	51.94
28.03.2019	103846	Geiriau Gwyn	Cyfieithu Mawrth 2019	212.76
02.04.2019	103849	Un Llais Cymru	Tal Aelodaeth 2019-2020	477.00
01.04.2019	103850	Rhys Williams	Cyflog Ebrill 2019 / Lwfans ffon a teipio a Stampiau	367.88

C6.2019/2020

SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU

1. **Adroddiadau Cynghorwyr Tref.**

a) Y Maer

5/3/19 Grŵp Mynediad

Cyngor Tref

6/3/19 CAIS – arian i beintio Llyfrgell Rydd ac i dacluso tu allan

8/3/19 Arwyddion Coed Ffynnon Fair

11/3/19 Archwilio trafndiaeth leol yn y Llyfrgell Rydd

12/3/19 Cyfarfod efo Pennaeth Priffyrdd ym Mhenarlâg

14/3/19 Grŵp Mynediad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) Ysbyty Abergele

20/3/19 Agoriad Sior 3ydd Penmaenpwll

Cwynion mis Mawrth 2019

12/3/19 Dŵr a baw yn rhedeg yn y Felin Uchaf.

Cyngor yn mynd i agor y gwteri.

Torri coed ar gornel Cae Deintir a Ffordd Pencefn.

Cyngor yn disgwyl ateb gan adran Addysg gan fod y coed ar dir addysg.

Llygredd dŵr ar ffordd Pencefn. Pobl efo sachau tywod trwy'r flwyddyn.

Cymhleth iawn i ddatrys hyn. Mae sawl adran wedi bod yn siarad gyda'i gilydd am hwn.

Dŵr Cymru ddim yn awyddus i adael y dŵr fynd i'w carthfos nhw.

Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'r Cyngor.

Tirfeddiannwr - Dŵr naturiol yn disgyn o'r tir.

Drud iawn i ddatrys rhywbeth naturiol - torri twll a rhoi tanc dŵr i gasglu'r dŵr ac wedyn gorfod talu i'r Cyngor neu Dŵr Cymru i'w wagio pob hyn a hyn.

Mae'r Cyngor a phartion eraill yn cadw golwg ar y dŵr yma.

Un awgrym yw i drigolion codi step i fyny ac wedyn fydd y dŵr yn pasio heibio.

Llinellau coch ar draws y ffordd wrth Ysgol Babanod ac Ysgol Gynradd Dolgellau – beth mae nhw yn dangos a pham mae nhw yno?

Nodwyd yn ychwanegol parthed:

- i) Dŵr budur ger ardal 'staylittle' – bod anghydfod rhwng Dŵr Cymru a gwasanaeth priffyrdd ar y funud ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen i ddatrys y broblem yma.
 - ii) Llinell Goch ar ffordd Pencefn ger safle cynradd Ysgol Bro Idris – mae'r Cyngorydd Dyfrig Siencyn yn mynychu cyfarfod safle yna yfory. Adborth i ddilyn.
- b) Y Cyngorydd Ywain Myfyr - ymgymryd â gwaith Sesiwn Fawr. Grŵp Gwlân o bosib am gael cymorth oddi wrth archeolegydd Cyngor Gwynedd. Cyfres teledu 'Cynefin' am gynhyrchu rhaglen ar Ddolgellau yn y dyfodol agos.
- c) Y Cyngorydd Sion Edwards - ymgymryd â gwaith Sesiwn Fawr. Problemau baw cŵn yn parhau. Poptŷ'r Dref wedi derbyn clôd cyhoeddus yn ddiweddar.
- Penderfynwyd:** Danfon llythyr o longyfarchiadau i'r busnes
- ch) Y Cyngorydd Jo Checkley – wedi gwario amser ar ddatrys nifer o faterion bach a ddaeth i sylw aelod.
- d) Y Cyngorydd John Raghoobar - gwaith gyda Pharc y Dref.
- dd) Y Cyngorydd Branwen Rhys Dafydd – cyflwynwyd dyluniad drafft o faneri 'noddi' i'r dref. Yn aros am brisiau ar hyn o bryd.
- Cefnogwyd** y dyluniad drafft.
- e) Y Cyngorydd John Cadwaladr - wedi mynychu cyfarfod o Gyngor Coleg Meirion / Dwyfor pryd nodwyd bod problemau parcio ger safle Cynradd/Babanod Ysgol Bro Idris yn y dref yn parhau.

2. Adroddiadau Cynghorwyr Gwynedd lleol

a) Y Cyngorydd Linda Morgan

7/3/19 Cyfarfod Plaid yng Nghaernarfon

7/3/19 Cyfarfod Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon

Pob wythnos wedi tacluso 8 pot blodau Cyngor Tref. Roedd un fasged wedi cael difrod gan fandaliaid. Perchennog y caffï yn gobeithio sortio fo. Mae'r blodau yn edrych yn dda a llawer wedi nodi canmoliaeth. Mae angen gwirfoddolwyr i ddyfrio nhw o rŵan hyd at gychwyn Mehefin. Gadewch i Nia neu fi wybod os ydych yn gallu bod o gymorth. Mae'n bosib eu dyfrio ar unrhyw amser o'r dydd, mae fyny i chi. Dwi ddim angen manylion ar wahân i'r ffaith eich bod yn gallu helpu.

Fel rydych yn gwybod, fel rhan o ymgyrch i atal cŵn rhag baeddu yn y dref, mae swyddogion wedi gosod posteri i fyny dros dro. Maent hefyd wedi gadael bagiau baw cŵn i mi i roi o gwmpas. Mae rhain yn mynd yn dda yn enwedig yn Sgwâr Eldon a'r Lawnt. Gadewch i mi wybod os ydych yn ymwybodol o rhywle sydd eu hangen.

28/3/19 Cyfarfod cainc Ffrindiau Ysbyty Dolgellau i drafod digwyddiad codi arian nesaf i'r Ysbyty, sef Ocsiwn ar 11 Ebrill yma yn y Llyfrgell Rydd. Byddai'n braf gweld rhai o'r Cyngorwyr Tref yno. Gellir gweld yr eitemau o 6.00 o'r gloch, a bydd yr Ocsiwn yn cychwyn am 7.00 o'r gloch. Gadewch i mi wybod os ydych yn dymuno cyfrannu eitem i'r Ocsiwn.

28/3/19 Cyfarfod Eithriadol o Ffrindiau Ysbyty Dolgellau. Delio gyda materion o bryder e.e. plant yn croesi tu allan i'r ysgol babanod eto. Ymweld â'r safle i dynnu fwy o luniau. Wedi gyrru e-bost ac yn monitro'r safle. Wedi cyfarfod gydag Iwan ap Trefor i drafod syniadau. Dwi'n cyfarfod gyda swyddog arall i drafod y mater gan nad yw'r ardal lle gafodd y ferch ei tharo lawr gan car yn ffit i bwrpas ac nid yw'r marciau yn ddigon clir. Mae angen ceisio arafu trafndiaeth yn yr ardal yma sy'n dod i lawr o ffordd Pen Cefn heibio y ddwy ysgol. Mae'r Wasg wedi bod mewn cyswllt gan fod rhiant wedi cysylltu â hwy.

Mynychu diwrnod agored ynglŷn â Thrafnidiaeth Gyhoeddus yn y Llyfrgell Rydd. Roedd yn dda iawn gyda llawer wedi mynychu a sawl sylw wedi ei wneud. Roedd ganddynt gopiâu o'r amserlen ar gyfer y cyhoedd. Gobeithio eich bod chi gyd wedi cwblhau'r holiadur sydd ar-lein. Mwy o ddiwrnodau agored i'w trefnu ym Mhorthmadog, Bangor, Pwllheli a Chaernarfon. Mae'n bwysig iawn i siarad i fyny.

Wedi gofyn ail-baentio'r croessfordd Zebra ar Bont Fawr.

Wedi cyfarfod gyda phreswylwyr ac Iwan ap Trefor i weld bollards ar ffordd Cae Deintur ynglŷn a'r digwyddiad lle bu modur fynd trwy'r gwrych mewn damwain a glanio yng ngardd yn Ardd Fawr. Lwcus fod y plant newydd adael yr ardal. Bu i'r ddamwain ddigwydd am 3.30 o'r gloch, pan allai plant fod wedi bod yn chwarae, hefyd gall rhywun o'r cyhoedd fod wedi bod yn cerdded ar y llwybr. Wedi gofyn am fwy o bollards ac mewn cyswllt gyda Phwyllgor Llwybrau ynglŷn a phosiblwydd cael wal wedi ei adeiladu yn yr ardal - yn parhau.

Hefyd wedi cael cais i edrych ar ail res Cae Deintur - parhau.

Cefnogi Bore Coffi yr Eglwys yng Ngwesty'r Llong at "Womens Fellowship"

Cais i priffyrdd ymweld tu allan i Goleg Meirion Dwyfor i lenwi'r tyllau yn y lon - parhau.

Ymweld agoriad Gwesty Sior y 3ydd. Sawl busnes ac aelodau o'r cyhoedd wedi mynychu. Adnewyddiad gwych, edrych yn dda iawn, mynediad da i'r anabl a'r henoed. Bwydlen dda, bwyd da, gwasanaeth cwsmer gwych. Golygfa fendigedig. Dymuniadau gorau iddynt. Yn dda i bobl leol a thwristiaeth.

Cais am arwydd i Fronallt – parhau.

Cais i ymweld problem parcio yn Ffordd Cader – parhau

Ymweld Rali Cymru – diwrnod da. Brysur iawn yn y dref gyda'r Rali, Rygbi a'r Eisteddfod. Braf gweld y dref mor brysur.

Rali wedi ei drefnu yn dda iawn, gyda cheir yn dod i'r prif faes parcio ac wedyn i Ffordd Marian tuag at ardal Modurdy Gwyndaf. Marsialiaid a threfnwyr i'w llongyfarch.

Cais am barc bin yn parhau, nai adrodd yn ol yng nghyfarfod nesaf.

Mae'r dref yn edrych yn llawer gwell, llai o sbwriel a.y.b.

Delio gyda chais i wagio bin baw cŵn ym mhen draw y Marian.

Mater sbwriel a choed Stad Ddiwydiannol yn parhau.

Dilyn fyny cyfarfodydd parthed Tai.

Angen cyfarfod gyda'r Llyfrgell Rydd.

E-byst yn parhau parthed parcio ger Gwesty'r Llong. Gobeithio cael ymweliad safle.

Cofio bod cronfa Cist Gwynedd a Grant Cyfalaf dal ar gael i grwpiau cymunedol a gwirfoddol Gwynedd, manylion ar lein.

Mae'r Gronfa Datblygiad Gwirfoddol yn cynnig grantiau refeniw a chyfalaf o hyd at £10,000 i gefnogi gwirfoddolwyr i wella safon bywyd preswylwyr a chymunedau yng Ngwynedd.

b) Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

Adroddwyd ar y canlynol:

Cyfarfod diweddar gyda'r Gweinidog newydd i Lywodraeth Leol yn y Cynulliad. Mae gwaith paratoi ar y gweill ar gyfer deddfwriaeth ar fesuriadau i addasu/newid llywodraeth leol - gan gynnwys Cynghorau Cymuned a Thref.

Mae bwriad i ymestyn hawl pleidleisio i bobl ifanc 16 oed ac i fynny. Cyfeiriwyd at newidiadau diweddar i aelodaeth y Cabinet yng Nghyngor Gwynedd. Derbyniwyd hyfforddiant ar gydraddoldeb yn ddiweddar.

Ymwelwyd â'r mosque ym Mangor i ddangos cefnogaeth ar ôl y trychineb diweddar yn Seland Newydd.

Cynhaliwyd seremoni gwobrwyo staff yng Nghyngor Gwynedd yn ddiweddar (Y Cyngor ar ei orau) a da oedd gweld staff o De Wynedd yn flaenllaw yn y gwobrau gan gynnwys staff y gwasanaeth Digartrefedd a Rheoli Adeiladau.

Derbyniwyd yr adroddiadau gyda diolch

C7.2019/2020

GOHEBIAETH

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:

1. Ysgol Bro Idris - gwahoddiad i enwebu aelod i lenwi sedd wag - categori Llywodraethwr Cymunedol.

Penderfynwyd: I enwebu'r Cynghorydd Bob Gunton i'r swydd yma,

2. Cyngor Gwynedd – gwaharddiadau a chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd:

Cyffordd Ffordd y Gader / Ffordd Bodlondeb yn cael sylw.

Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth.

NP5/57/67B – DYMCHWEL LOLFA HAUL PRESENNOL A CHODI ESTYNIAD A NEWIDIADAU ALLANOL MAES MERLYN, GARREG FEURIG, DOLGELLAU. LL40 2YA – **Dim Gwrthwynebiad.**

NP5/57/1038G – CODI FFENS O FATH TIWBILAR METEL 600MM O UCHDER AR BEN WAL AMDDIFFYN RHAG LLIFOGYDD BRESENNOL PARC MARIAN BACH, DOLGELLAU. LL40 1DF – **Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais ar sail y bydd y gwaith yn gwella adnoddau y safle ac yn cynyddu mesuriadau iechyd a diogelwch.**

NP5/57/L631 – GOSOD FFLIW ALLANOL Y BWTHYN, 4 UPPERFIELD STREET, DOLGELLAU. LL40 1NA **Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais ar sail y bydd yn gwella cyfleusterau i'r adeilad.**

NP5/57/1153 CODI FFENEST DORMER TÓ FFLAT AR Y CEFN BOD HYFRYD, 20 MAESBRITH ,DOLGELLAU. LL40 1LF – **Dim Gwrthwynebiad.**